

Griffiths yn y Gymuned

Mae Griffiths wedi bod yn falch iawn o gefnogi'r gwelliant i fynediad Neuadd Carmel gan ddarparu tarmac ar gyfer gosod wyneb newydd ar y fynedfa a'r maes parcio.



Mae rheoli gwastraff yn agwedd bwysig ar y busnes a lle bo'n bosibl mae deunyddiau'n cael eu hailgylchu. Mae darn o bibell ddraenio nad oes ei hangen ar y safle wedi cael ei defnyddio gan aelod o bwyllgor Neuadd Carmel, John Walters, sydd yn y llun uchod gydag aelod arall o'r pwyllgor, Nigel Rees, i ailgyfeirio dŵr sydd wedi yn y gorffennol gorlifo i'r caeau chwarae a'r ardal o amgylch y neuadd.


Mae sesiwn tacluso'r safle yn Neuadd Gymunedol y Gât wedi'i threfnu gan staff safle Griffiths sy'n cynnwys symud tua 25 tonn o rwbel yn dilyn gwaith blaenorol a wnaed i wneud y safle'n wastad y tu cefn i'r neuadd i baratoi ar gyfer ardal gemau amldefnydd

Lluniau cyn ac ar ôl isod



Diweddariad y prosiect

Ers y bwletin diwethaf mae gwaith adeiladu wedi trawsnewid yr ardal o Heol y Llew Du i Heol Norton.



Fel y gwelir yn y llun mae'r cyrbau ar hyd y ffordd gerbydau wedi'u cwblhau. Mae llawer o wahanol fathau o gyrbau ffordd yn cael eu defnyddio ac mae'r rhai dan sylw yn gyrbau rhwystr safonol HB2 a chyrbau esgynadwy ar ogwydd wedi'u cynllunio at ddibenion gwahanol. Defnyddir cyrbau rhwystr ochr yn ochr â phalmentydd a llwybrau a ddefnyddir gan y cyhoedd i atal cerbydau rhag gadael y

ffordd gerbydau a defnyddir cwrbyn esgynadwy ar ogwydd er mwyn helpu i atal damweiniau ar y ffordd gerbydau.

Gweithgarwch yn y Dyfodol

Bydd y gwaith yn ailddechrau ar Heol y Llew Du i Safle Strategol Economaidd Cross Hands yn ystod mis Hydref i gwblhau'r gyffordd groesgam. Bydd angen cau'r ffordd i Wales and West Utilities ostwng prif bibell nwy strategol a oedd llawer uwch nag oedd Wales and West Utilities yn ei ddisgwyl, ac yna bydd angen cau ffordd arall wrth gwblhau'r gwaith adeiladu yng nghyffordd Heol y Llew Du er mwyn hwyluso'r gwaith o osod y cwrs wyneb tarmac terfynol. Caiff arwyddion eu gosod i ddangos y llwybr dargyfeirio sy'n angenrheidiol ar gyfer pob elfen o'r gwaith.

Yn Heol Llandeilo, mae'r gwaith o gysylltu'r ffordd newydd â'r seilwaith presennol wedi'i drefnu ar gyfer yn ddiweddarach eleni.



Byddem wrth ein boddau o glywed eich sylwadau. Cysylltwch â ni drwy ein gwefan community.alungriffiths.co.uk neu cysylltwch â'n Swyddog Cyswllt Cymunedol, Jane Howells:

0330 0414651* or jane.howells@alungriffiths.co.uk

*Codir tâl ar gyfradd genedlaethol ar alwadau i'r rhif hwn a chânt eu cynnwys mewn cynlluniau cynhwysol o linellau sefydlog a symudol